# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

## ASTUDIO'R CYFRYNGAU
## UG/UWCH

### HAF 2015

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2015 TAG ASTUDIO'R CYFRYNGAU. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.


| | **Tudalen** |
|---|---|
| MS1 | 1 |
| MS4 | 7 |


© WJEC CBAC Cyf.

# Astudio'r Cyfryngau Uwch Gyfrannol/Uwch
# MS1: Cynrychioliadau ac Ymatebion

## MS1: Cynllun Marcio Generig (Cwestiwn 1)

***Cwestiwn 1***

| | |
|---|---|
| | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
| | ***AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu.*** |
| **Lefel 1: 0–15** | Golwg arwynebol ar y testunau ar lefel synnwyr cyffredin. Diffyg canolbwyntio ar y testun. Disgrifiadol yn hytrach na dadansoddol. Rhywfaint o honni heb ei gefnogi neu amherthnasedd. Diffyg rhuglder. Heb fod wedi'i seilio ar wybodaeth neu ddealltwriaeth o'r cyfryngau. |
| **Lefel 2: 16-23**<br><br>**(16–19)**<br><br><br><br>**(20–23)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd teimlad sylfaenol o sut caiff ystyron eu creu er y gall fod rhywfaint o ymgais i ddadansoddi nodweddion allweddol. Rhywfaint o adnabyddiaeth o gynodiadau ond tuedd i orfanylu ar y syml.<br><br>Disgrifiadol.<br><br>Ar ben uchaf y lefel hon, bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o destunau cyfryngol a'u confensiynau ynghyd â gallu i ddadansoddi. Adnabyddiaeth o gynodiadau a chynrychioliadau ond heb ei datblygu. Dealltwriaeth o sut mae testunau'n creu ystyron. Tuedd i ddisgrifio. |
| **Lefel 3: 24-31**<br><br>**(24–27)**<br><br><br><br>**(28–31)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth gadarn o destunau cyfryngol a'u confensiynau ynghyd â gallu cadarn i ddadansoddi. Amgyffrediad cadarn o gynodiadau. Ar y lefel hon, gwneir pwyntiau, gan ddefnyddio termau priodol y cyfryngau. Safbwynt unigol yn dechrau dod i'r amlwg.<br><br>Ar ben uchaf y lefel, bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o destunau a chonfensiynau cyfryngol ynghyd â gallu da i ddadansoddi. Defnydd hyderus o dermau'r cyfryngau a dadl wedi'i strwythuro'n dda, o bosibl yn tynnu ar wahanol ddulliau. Archwilio syniadau i roi dehongliad dilys o'r testun wedi'i gefnogi'n briodol. |
| **Lefel 4: 32–40** | Dadansoddi soffistigedig a chraff, yn dangos dealltwriaeth drylwyr o ddangosyddion a thechnegau allweddol. Mynegir syniadau cymhleth yn gydlynol. Ymwybyddiaeth o natur amlystyr testunau gydag adnabyddiaeth bosibl o'r ideolegol. Tystiolaeth o drosolwg. Defnydd wedi'i ddatblygu'n dda o dermau'r cyfryngau. |

© WJEC CBAC Cyf.

## MS1: Cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn

Dyfernir marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Mae angen i farcwyr sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu gosod o fewn y lefelau cywir ac yn cael marciau yn unol â hynny.

Mae'r cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn yn darparu pwyntiau y gall ymgeiswyr gyfeirio atynt yn eu hatebion. Rhaid ei ***ddefnyddio ar y cyd â'r grid perthnasol.*** Atgoffir arholwyr, fodd bynnag, nad yw'n rhestr ddiffiniol ac y dylent fod â meddwl agored a mynd i'r afael â'r hyn y mae'r ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu. ***Rhaid*** i atebion perthnasol, sy'n ymdrin â deunydd nad yw wedi'i gynnwys isod, gael eu gwobrwyo ar sail teilyngdod. Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â Chwestiynau 2 a 3 ac mae canolfannau yn debygol o fod wedi astudio amrywiaeth o enghreifftiau gwahanol. Mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol.

Astudiwch y cloriau ar gyfer y *DVDs*, *The Mortal Instruments: City of Bones* a *Red 2*.

**C. 1** Dadansoddwch y cloriau ar gyfer y **ddau** *DVD* gan roi sylwadau am y canlynol:

- Codau gweledol
- Gosodiad a chynllun
- Naratif **[40]**

***Red 2***

Codau gweledol
- Lliw – coch a chynodiadau o berygl
- Dillad – yn neilltuol i'r cymeriadau
- Ystum - cadarn, pendant, cerdded tuag at y gynulleidfa
- Edrychiad - ffurfiol, difrifol yn awgrymu eu bod nhw â rheolaeth
- Lleoliad ac eiconograffeg – trefol â thirnodau eiconig, dinasoedd â phwysigrwydd byd-eang yn awgrymu'r *genre* a'r naratif, drylliau

Gosodiad a chynllun
- Lleoliad y ddelwedd ganolog a syllu ar y darllenwyr
- Arddulliau ffont e.e. *Red 2* – ffont sy'n debyg i baent yn awgrymu cyffro
- Defnyddio graffigwaith
- Lleoliad/dyluniad y testun
- Dyluniad lliw/defnyddio coch ac aur tân i ddenu cynulleidfa ac awgrymu'r naratif a'r *genre*

Naratif
- Clawr blaen yn dangos y *genre*, y cymeriadau a'u rôl bosibl yn y naratif
- Llinell glo
- Mân-luniau yn dangos enigmâu'r naratif ac yn atgyfnerthu'r *genre*
- Broliant – yr iaith yn awgrymu'r *genre* ac yn rhoi amlinelliad o'r naratif; canolbwyntio ar oedran
- Lleoliadau yn gysylltiedig â'r naratif

© WJEC CBAC Cyf.

***The Mortal Instruments: City of Bones***

Codau gweledol

- Lliw – arlliwiau tywyll, glas oer yn awgrymu thema dywyll, cynodiadau du
- Dillad – yn awgrymu ieuenctid, e.e. siacedi lledr
- Ystum – yn rhoi cliwiau i ‘bwerau arbennig’, awgrymiadau o ofn
- Edrychiad – yn awgrymu 'perthyn i fyd arall’, ofn; defnyddio dull cyfarch uniongyrchol
- Lleoliad ac eiconograffeg - hynod; eiconograffeg *genre* Ffantasi: tatŵau, logo

Gosodiad a chynllun

- Delwedd ganolog – yn rhoi cliwiau i’r naratif, cymeriadau wedi’u rhannu gan leoliad, dull cyfarch uniongyrchol
- Gosod sêr, beirniadaeth arbenigol
- Arddulliau ffont a graffigwaith yn atgyfnerthu’r *genre*
- Delwedd fawr ar y cefn i ddangos perthynas, mân-luniau yn awgrymu’r naratif
- 'Rhaglenni Nodwedd Arbennig' i ddenu cynulleidfa

Naratif

- Clawr blaen yn dangos y *genre*, y cymeriadau a’u rôl bosibl yn y naratif
- Llinell glo
- Mân-luniau yn dangos enigmâu’r naratif ac yn atgyfnerthu’r *genre*
- Broliant – yr iaith yn awgrymu’r *genre* ac yn rhoi amlinelliad o’r naratif a’r cymeriadau; canolbwyntio ar oedran
- Lleoliadau yn gysylltiedig â’r naratif
- 'Rhybudd' yn yr ardystio yn rhoi cliwiau i’r naratif

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2** (a) Nodwch **ddau** gynrychioliad gwahanol o oedran ar y cloriau ar gyfer y *DVDs*. **[4]**

- Dynion hŷn – yn tanseilio cynyrchioliad wedi'i stereoteipio
- Menywod hŷn – yn tanseilio cynyrchioliad wedi'i stereoteipio
- Dyn iau – cynrychioliad wedi'i stereoteipio fwy a ddisgwylir yn y *genre* hwn
- Menyw iau - cynrychioliad wedi'i stereoteipio fwy a ddisgwylir yn y *genre* hwn

Ar gyfer **pob** cynrychioliad **gwahanol** a nodir:

| | |
|---|---|
| **1 marc** | Yn nodi enghraifft gredadwy o gynrychioliad. |
| **2 farc** | Yn disgrifio'r enghraifft hon yn fwy manwl. |

(b) Dewiswch **un** o'r cynrychioliadau hyn o oedran. Archwiliwch sut mae wedi cael ei lunio ar y clawr ar gyfer y *DVD*. **[10]**

Y disgwyl yma yw y bydd ymgeiswyr yn datblygu eu pwyntiau yn fwy manwl, gan archwilio:

- Sut mae iaith yn cael ei defnyddio i awgrymu agweddau ar oedran
- Eiconograffeg: dillad, dodrefn ayb.
- Sut mae codau technegol yn cael eu defnyddio i lunio'r cynrychioliad
- Herio rolau disgwyliedig
- Golygu/gosodiad a chynllun i ddangos rôl cymeriad

| | |
|---|---|
| **Lefel 1: 0 – 2** | Bydd y dulliau'n arwynebol ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol iawn yn unig o sut mae oedran wedi cael ei gynrychioli. |
| **Lefel 2: 3 – 4** | Bydd yr ateb yn dangos dealltwriaeth sylfaenol ond perthnasol o sut mae oedran wedi cael ei gynrychioli. |
| **Lefel 3: 5 – 7** | Dealltwriaeth gydlynol, gadarn o sut mae oedran wedi cael ei gynrychioli (5).<br>……………………………………………………………………………………<br>Bydd dealltwriaeth dda yn cael ei dangos ar gyfer rhan uchaf y lefel hon (6-7). |
| **Lefel 4: 8 – 10** | Dealltwriaeth soffistigedig o sut mae oedran wedi cael ei gynrychioli. |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2** (c) Gan gyfeirio at **eich enghreifftiau manwl eich hun**, archwiliwch gynrychioliadau o bobl hŷn yn y cyfryngau heddiw. **[16]**

- Rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio 2/3 enghraifft benodol o sut mae testunau cyfryngol yn cynrychioli pobl hŷn a'u dadansoddi nhw yn fanwl gan ganolbwyntio ar gysyniad cynrychioliad.
- Mae disgwyl y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y lefelau uchaf yn dangos dealltwriaeth o gysyniad cynrychioliad ac yn gallu angori eu henghreifftiau dewisol o ran cyd-destun a phwrpas.
- Dylai'r enghreifftiau dewisol gael eu dadansoddi â thipyn o fanylder a rhaid i'r atebion gorau fynd i'r afael â nhw ar lefel fwy soffistigedig sy'n mynd y tu hwnt i ddisgrifiadau neu honiadau syml o gadarnhaol a negyddol.
- Rhaid i'r enghreifftiau a ddefnyddir fod yn gyfoes er mwyn adlewyrchu cynrychioliad pobl hŷn 'yn y cyfryngau heddiw'.

| | |
|---|---|
| | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
| | ***AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu.*** |
| **Lefel 1: 0-5** | Dadl arwynebol. Yn dibynnu'n helaeth ar ddisgrifio. Diffyg enghreifftiau priodol. Fawr ddim tystiolaeth o ddealltwriaeth o gysyniad cynrychioliad. |
| **Lefel 2: 6-8**<br>**(6)**<br><br>**(7-8)** | Ymgais sylfaenol i fynd i'r afael â chysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Golwg syml ar destunau. Diffyg dyfnder a datblygiad.<br>……………………………………………………………………………<br>Teimlad o gysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Gall y dulliau fod yn rhy ddisgrifiadol. Gall yr ateb fod wedi'i gyfyngu i'r deunydd ysgogi heb ddim enghreifftiau eraill. Ni chyfeirir at enghreifftiau penodol. Efallai bydd enghreifftiau'n gyffredinol iawn, yn anaddas, neu heb eu harchwilio ag unrhyw fanylder. |
| **Lefel 3: 9-12**<br>**(9-10)**<br><br>**(11-12)** | Dealltwriaeth gadarn o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad. Ymgais cadarn i fynd i'r afael â chysyniadau a dadleuon y cyfryngau gan ddefnyddio enghreifftiau priodol. Bydd syniadau gweddol gymhleth yn cael eu mynegi'n glir gyda rhywfaint o dystiolaeth o ddehongliad personol.<br>……………………………………………………………………………..<br>Dealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad. Archwilio da o gysyniadau a dadleuon perthnasol y cyfryngau gan ddefnyddio amrywiaeth o enghreifftiau priodol. Yn debygol o dynnu ar wahanol ddulliau. |
| **Lefel 4: 13-16** | Dealltwriaeth soffistigedig o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad wedi'u cysylltu â meddwl a damcaniaethau cyfredol. Archwilio hyderus o gysyniadau'r cyfryngau. Teimlad da o faterion a dadleuon ynghylch amrywiaeth eang o destunau cyfryngol. |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3** Gan gyfeirio'n fanwl at **ddwy neu dair enghraifft** rydych chi wedi'u hastudio, archwiliwch sut mae testunau cyfryngol yn cael eu llunio i leoli cynulleidfaoedd a/neu ddefnyddwyr. **[30]**

Dylai ymgeiswyr drafod sut mae llunio'r testun yn lleoli cynulleidfaoedd gan gynnwys:

- Ymatebion i leoli – dehongliadau dewisol, dehongliadau wedi'u trafod, dehongliadau gwrthwynebol
- Llunio'r testun a' r gynulleidfa o fewn y testun
- Defnyddio codau technegol /gosodiad a chynllun, e.e. saethiadau camera ayb.
- Cyd-destunau perthnasol
- Iaith a dull cyfarch
- Naratif
- Cymeriadau
- Codau clywedol

Rhaid i'r pwyntiau hyn gael eu trafod gan gyfeirio at 2/3 enghraifft fanwl.

| | |
|---|---|
| | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
| | ***AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu.*** |
| **Lefel 1: 0-11** | Fawr ddim neu ddim teimlad o gysyniad cynulleidfa. |
| **Lefel 2: 12-17**<br>**(12-14)**<br><br>**(15-17)** | Dealltwriaeth sylfaenol o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Disgrifiadol ac wedi'i symleiddio'n ormodol.<br>………………………………………………………………………………….<br>Dealltwriaeth o gysyniad cynulleidfaoedd/defnyddwyr yn dod i'r golwg ond heb ei datblygu. Gall fod cyfeiriadau ymhlyg at ddadleuon beirniadol ynghylch cynulleidfaoedd/defnyddwyr. Does dim cyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi pwyntiau. Efallai bydd enghreifftiau a ddefnyddir yn gyffredinol iawn, yn anaddas, neu heb eu harchwilio ag unrhyw fanylder. |
| **Lefel 3: 18-23**<br>**(18-20)**<br><br>**(21-23)** | Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gysyniad cynulleidfaoedd/defnyddwyr. Efallai bydd yn dechrau dyfynnu damcaniaethau neu ddadleuon perthnasol. Defnyddir enghreifftiau yn briodol.<br>........................................................................................................<br>Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gysyniad cynulleidfaoedd/defnyddwyr. Cyfeirio perthnasol at faterion sy'n ymwneud â lleoli cynulleidfaoedd a chysylltu hyn ag amrywiaeth o enghreifftiau priodol. Ymwybyddiaeth o ddamcaniaethau perthnasol, dadleuon newidiol, safbwyntiau a dulliau gwahanol. |
| **Lefel 4: 24-30** | Gwybodaeth a dealltwriaeth soffistigedig o gysyniad cynulleidfaoedd/ defnyddwyr. Mae'n tynnu ar faterion a dadleuon gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol sydd wedi'u datblygu'n dda ac mae'n mynd i'r afael â materion damcaniaethol perthnasol. |

© WJEC CBAC Cyf.

Gan na ddefnyddir ffracsiynau, noder mai *canllawiau* yn unig yw'r rhifau a ddefnyddir i gyrraedd lefelau ar gyfer y ddau Amcan Asesu a'u bod wedi'u rhoi mewn cromfachau sgwâr […]. Dylid penderfynu ar **farc terfynol** ymgeisydd **o fewn lefel** ar sail y **cyfanswm allan o 30** fel y nodir isod.

Gweler y grid marcio generig drosodd.

© WJEC CBAC Cyf.

| Lefel/ Marciau | AA1<br>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a thrafodaethau beirniadol y cyfryngau | AA2<br>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac wrth werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu |
|---|---|---|
| **Lefel 1: 0–11** | Ymateb sylfaenol, synnwyr cyffredin. Dealltwriaeth arwynebol o'r testunau a astudiwyd a'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r gynulleidfa. Mae manylion amherthnasol yn nodweddu'r ymateb.<br>[0–7] | Bydd y dadansoddiad yn wan ac â diffyg dyfnder, yn tueddu i fod yn gyffredinol heb unrhyw enghreifftiau i'w gefnogi.<br>[0–3] |
| **Lefel 2: 12–17**<br>**(12-14)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dechreuadau ymateb perthnasol ond bydd diffyg canolbwynt. Bydd gwybodaeth sylfaenol o'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa yn amlwg. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad sylfaenol ond anghyson o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Bydd unrhyw ddadansoddi yn debygol o fod wedi'i fynegi'n syml gan ddangos dealltwriaeth sylfaenol o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu. |
| **(15-17)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd safbwynt yn dod i'r amlwg a gall enghreifftiau gael eu defnyddio'n fwy perthnasol. Mae atebion yn debygol o fod yn fwy disgrifiadol.<br>[8–11] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd y dadansoddiad o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol) yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol. Bydd dealltwriaeth o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu yn amlwg.<br>[4–5] |
| **Lefel 3: 18–23**<br>**(18–20)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd ymateb cadarn sy'n dangos gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth o'r testunau a'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r gynulleidfa. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad cadarn o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Bydd dealltwriaeth gadarn o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu yn amlwg. |
| **(21–23)** | Ar ben uchaf y lefel hon, dangosir dealltwriaeth dda o destunau, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa drwy enghreifftiau perthnasol a manwl ynghyd â gwneud defnydd priodol o dermau perthnasol y cyfryngau.<br>[12–15] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth dda o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu.<br>[6–7] |
| **Lefel 4: 24–30**<br>**(24–26)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth dda iawn o destunau cyfryngol, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Bydd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn fanwl ac yn dangos safbwynt. Gwneir defnydd priodol o dermau perthnasol y cyfryngau. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad da iawn o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Felly hefyd, bydd dealltwriaeth dda iawn o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu. |
| **(27–30)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth soffistigedig o destunau cyfryngol, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Bydd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn fanwl, yn gydlynol ac yn arwain at safbwynt wedi'i sefydlu'n dda. Gwneir defnydd priodol iawn o dermau perthnasol y cyfryngau.<br>[16–20] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dadansoddiad soffistigedig o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Felly hefyd, bydd dealltwriaeth soffistigedig o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu.<br>[8–10] |

© WJEC CBAC Cyf.

## MS4: Cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn

**Noder**: ***Ar gyfer pob cwestiwn, bydd yr atebion yn ddibynnol ar y diwydiant a ddewisir.***

Bydd canolfannau wedi astudio diwydiannau gwahanol a defnyddio amrywiaeth o brif destunau gwahanol gyda'u hymgeiswyr. Cyfrifoldeb yr arholwr yw sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gywir o ran y wybodaeth ffeithiol a ddarparant ond cadw meddwl agored ynghylch y dulliau gwahanol y gall ymgeiswyr eu defnyddio i ymdrin â'r cwestiynau. Nid oes atebion cywir nac anghywir (ar wahân i fanylion ffeithiol) ac mae'n debygol y bydd amrywiaeth o atebion i'r cwestiynau – mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol. Disgwylir i ymgeiswyr gyfeirio at **dri** thestun ym mhob ateb ond ni ddisgwylir yr ymdrinnir yn gyfartal â'r testunau y cyfeirir atynt. *Os na fyddan nhw'n cyfeirio at dri thestun yn eu hateb gweler y nodyn isod ynghylch torri cyfarwyddyd.*

Dyfernir marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Mae angen i farcwyr sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu gosod o fewn y lefelau cywir ac yn cael marciau yn unol â hynny.

### Dewis bandiau a marciau o fewn bandiau

Mae sawl disgrifydd o fewn band marciau ac nid oes disgwyl i bob un fod yn berthnasol i'r un graddau i ateb penodol. Felly dylai arholwyr ddefnyddio dull 'ffit orau' ar gyfer dewis band marciau, gan ddechrau ar yr isaf a gweithio i fyny i ddewis yr un sy'n disgrifio'n fwyaf cywir yr ateb yn gyffredinol.

I ddewis marc o fewn band, dylai arholwyr benderfynu a yw'r ateb o'r braidd yn cwrdd â'r disgrifwyr (marciau isaf), yn cwrdd â'r disgrifwyr yn ddigonol (marciau canol), neu'n cwrdd â'r disgrifwyr yn argyhoeddiadol (marciau uchaf).

Mae'r cynllun marcio hwn sy'n benodol i'r cwestiwn yn cynnig pwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Rhaid ei **ddefnyddio ar y cyd â'r grid uchod.** Atgoffir arholwyr, fodd bynnag, nad yw'n rhestr ddiffiniol ac y dylent fod â meddwl agored a mynd i'r afael â'r hyn y mae'r ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu. **Rhaid** i atebion perthnasol, sy'n ymdrin â deunydd nad yw wedi'i gynnwys isod, gael eu gwobrwyo ar sail teilyngdod. Gan y bydd canolfannau wedi dewis amrywiaeth eang o destunau i'w hastudio, mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â'r cwestiynau. Mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol.

### Torri Cyfarwyddyd

Mae'n ofyniad ar gyfer yr uned hon bod ymgeiswyr yn cyfeirio at **dri** phrif destun ym mhob un o'u hatebion. Os bydd ymgeiswyr yn cyfeirio at **lai** na thri testun, gwneir yr addasiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cyfeirio at ddau destun** | - **3** |
| **Cyfeirio at un testun neu ddim testun** | - **5** |

Bydd y sylwadau sy'n cyfiawnhau'r marc ar ddiwedd yr ateb yn dangos yr addasiad, bydd clawr blaen y sgript yn dangos hynny hefyd.

Mae ymgeiswyr sy'n cyfeirio at (er enghraifft) gloriau blaen Cylchgronau, hysbysebion sengl, tudalennau blaen Papurau newydd, neu sydd ddim yn cyfeirio o gwbl at yr episodau (teledu) neu'r rhaglenni (teledu) a astudiwyd, neu at gynnwys y Gemau a astudiwyd ganddynt yn debygol o'u cosbi eu hunain. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi sylw priodol ar y sgript – er enghraifft: *dim ond hysbysebion sengl*; *dim ond cloriau blaen y cyfeirir atynt* neu *ni chyfeirir at episod penodol a astudiwyd* ayb.

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A: TESTUN

*Atebwch* **un** *cwestiwn o'r adran hon.*

**A1. 'Mae pob cynrychioliad yn y cyfryngau yn cael ei lunio.' Trafodwch gan gyfeirio at eich tri phrif destun. [30]**

Gwahoddir ymgeiswyr i ddewis y prif gynrychioliadau o'u testunau. Gellir cysylltu'r rhain â rhywedd, oedran, ethnigrwydd, materion, hunaniaeth genedlaethol ayb. yn dibynnu ar y testun. Mae'r cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr archwilio llunio ond efallai bydd yr atebion gwannaf yn disgrifio yn unig. Dylai'r atebion gorau fynd i'r afael â '*llunio*' a dangos dealltwriaeth o natur ddewisedig a lluniedig cynrychioliad.

Gall atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Edrychiad, codau gwisg, dull cyfarch
- Cymeriad, agweddau
- Codau technegol – e.e. camera, goleuo a golygu
- Naratif a *Genre*
- Cynodiadau ac ystyron
- Cysylltiadau â chynulleidfaoedd a dehongliad cynulleidfa

**A2. 'Mae testunau cyfryngol yn cynnwys naratifau cymhleth.' Pa mor wir yw hyn am eich tri phrif destun? [30]**

Efallai bydd ymgeiswyr yn dadlau bod y naratifau yn (er enghraifft) llinol a syml neu eu bod yn aflinol, cylchol ayb. ac yn fwy cymhleth, yn dibynnu ar y testunau a ddewisir. Marciwch ar sail teilyngdod a chwiliwch am gydlyniad dadl a phwyntiau yn cael eu cefnogi. Efallai na fydd yr atebion gwannaf yn gwneud dim mwy na disgrifio rhediadau plot; dylai'r atebion gorau ddangos dealltwriaeth ddyfnaf o naratif. Sylwch: efallai bydd rhai ymgeiswyr yn trafod naratifau o fewn testunau sy'n seiliedig ar brint (fel hysbysebion, neu erthyglau cylchgrawn/papur newydd).

Gall atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Strwythurau llinol, aflinol ayb.
- Y defnydd a wneir o ddyfeisiau naratif, fel ôl-fflachiau, fflachiau ymlaen ayb.
- Rôl neu swyddogaeth y cymeriad o fewn y naratif
- Cyfeirio at theori (e.e. Propp, Vogler, Todorov ayb.) – sicrhewch ei fod yn cael ei ddefnyddio'n berthnasol
- Naratifau ffuglennol yn erbyn naratifau bywyd go iawn (e.e. mewn testunau dogfennol neu destunau papur newydd)
- Naratifau ymhlyg – er enghraifft o fewn hysbysebion mewn print neu gloriau CD (adegau ciplun o fewn dilyniant naratif (ymhlyg) hirach)
- Penawdau papur newydd enigmatig yn ymhlygu naratifau manwl

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B: DIWYDIANT A CHYNULLEIDFA

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn o'r adran hon, gan ddefnyddio* ***diwydiant cyfryngau gwahanol*** *ar gyfer* ***pob cwestiwn.***

**B1. Archwiliwch apeliadau cynulleidfa gwahanol eich tri phrif destun. [30]**

Mae'r cwestiwn yn gofyn am apeliadau *y testun* yn hytrach na *sut* mae'r testun yn apelio at gynulleidfaoedd, ond dylai'r rhai sy'n ateb yn y ffordd hon gael eu marcio ar sail teilyngdod. Mae cysylltiadau â phleser cynulleidfa yn gyfiawn. Disgwylir rhywfaint o drafod cynulleidfaoedd gwahanol (i gysylltu ag apeliadau gwahanol) yn yr atebion gorau.

Gall atebion gynnwys cyfeirio at y canlynol:

- Cysylltiadau â damcaniaeth Defnyddiau a Boddhad - e.e. hunaniaeth bersonol, adloniant ayb.
- Pleserau
- Materion a realaeth
- *Genre* – drwy atgyfnerthu neu herio confensiynau nodweddiadol
- Cynnwys y defnyddiwr; rhyngweithio
- Codau allweddol - gweledol, ysgrifenedig, clywedol ayb.
- Heriau i ddisgwyliadau
- Rhyngdestuniaeth
- Llinellau apêl (e.e. hysbysebu)
- Amrywiaeth e.e. erthyglau papur newydd a chylchgrawn (cyrhaeddiad)

**B2. Trafodwch bwysigrwydd cyfryngau cymdeithasol yng ngwaith y marchnata a hyrwyddo eich tri phrif destun. [30]**

Mae hwn yn y bôn yn gwestiwn am farchnata/hyrwyddo a dylai ymgeiswyr drafod defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel **strategaeth farchnata** yn hytrach na dim ond disgrifio defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Dylai ymgeiswyr allu cyfeirio'n benodol at ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol (**enghreifftiau,** yn hytrach na phwyntiau generig - h.y. mae dim ond dweud bod testun wedi defnyddio *Facebook* yn syml iawn ac yn amlwg; dylai ymgeiswyr allu disgrifio/trafod tudalennau *Facebook* penodol). Fodd bynnag, efallai bydd yr atebion gwannaf yn cyfeirio'n syml, e.e. mae'n defnyddio *Twitter*. Dylai'r atebion gorau gynnig enghreifftiau a mynd i'r afael â rhan '*pwysigrwydd*' y cwestiwn.

Gall cyfeirio penodol at gyfryngau cymdeithasol gynnwys rhai o'r canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TELEDU**:<br>*Twitter*<br>Fforymau cefnogwyr<br>Tudalennau a grwpiau *Facebook*<br>Blogiau – cefnogwyr a chymeriadau'r teledu<br>Gwefannau<br>Cysylltiadau rhwydweithiau cymdeithasol<br>Ymgyrchoedd firaol<br>Apêl sêr<br>Cyfweliadau<br>Gwobrau | **RADIO**:<br>Rhaghysbysebion<br>*Podcast* ar gyfer rhaglenni eraill<br>Tudalennau a grwpiau *Facebook* | **FFILM**:<br>Fforymau cefnogwyr<br>Tudalennau a grwpiau *Facebook*<br>Defnyddio cwmnïau fel *Klout*<br>Porthiannau *Twitte*r<br>Sêr yn defnyddio *selfies* ac Instagram<br>Blogiau | **CERDDORIAETH**:<br>Tudalennau a grwpiau *Facebook*<br>Dangos ar *YouTube*<br>Blogiau<br>*Selfies* ac Instagram i hunanhyrwyddo<br>*Twitter* |
| **PAPURAU NEWYDD**:<br>Porthiannau *Twitter* gan newyddiadurwyr a blogiau<br>Tudalennau/grwpiau *Facebook*<br>Fforymau<br>*LinkedIn* | **CYLCHGRONAU**:<br>*Twitter*<br>Tudalennau *Facebook*<br>Arolygon barn<br>*LinkedIn* | **HYSBYSEBU**:<br>Cyrhaeddiad brand ac ymwybyddiaeth o frand<br>Tudalennau a grwpiau *Facebook Pinterest Foursquare*<br>Instagram<br>Blogiau | **GEMAU CYFRIFIADUROL**:<br>Llwyfan i hyrwyddo gemau'r dyfodol<br>Llwyfannau rhyngweithiol<br>Rhithfydoedd gemau<br>Rhithfydoedd cymdeithasol<br>Fforymau cefnogwyr |

© WJEC CBAC Cyf.

**B3. I ba raddau mae eich tri phrif destun yn targedu cynulleidfa fyd-eang? [30]**

Mae hwn yn gwestiwn agored sy'n gwahodd ymgeiswyr i ystyried rhan "i ba raddau" y cwestiwn. Mae'n berffaith ddilys i ymgeiswyr gasglu nad yw testun yn targedu cynulleidfa fyd-eang. Bydd atebion yn wahanol yn dibynnu ar y diwydiant a astudiwyd ond efallai cyfeirir at rai o'r pwyntiau canlynol:

- Dosbarthu
- Defnyddio sêr/enwogion
- Gwerthoedd cynhyrchu
- Cyllideb
- Cynulleidfaoedd cloer (nid byd-eang)
- Cynnwys pwnc/cyswllt
- Marchnata

Mae'r atebion gorau yn debygol o drafod natur 'byd-eang' a chydnabod bod angen i destun dargedu cynulleidfa helaeth i fod yn fyd-eang, ond efallai bydd yr atebion gwannaf yn gweld 'byd-eang' fel unrhyw beth y tu allan i'r DU.

**B4. Pa mor bwysig yw technolegau digidol i lwyddiant eich tri phrif destun? [30]**

Efallai bydd ymgeiswyr yn diffinio natur "llwyddiant" y testun sydd gan amlaf yn ddilys. Gellir dehongli technolegau digidol fel:

Y rheini o fewn y testun, er enghraifft:
- Effeithiau arbennig
- Graffigwaith; technegau animeiddio ayb.

Y rheini sy'n ymwneud â llunio'r testun, er enghraifft:
- Delweddau digidol
- Technegau golygu
- Traciau sain digidol

Y rheini a ddefnyddir wrth farchnata'r testunau, er enghraifft
- *Facebook*
- *YouTube*
- *Twitter* ayb.

Neu dechnolegau digidol a ddefnyddir gan feirniaid i godi proffil testun, er enghraifft:
- Blogiau
- Adolygiadau ar-lein eraill.

Efallai bydd yr atebion gorau yn cynnwys amrywiaeth o'r elfennau hyn, ond efallai bydd yr atebion gwannaf yn canolbwyntio fwy ar un elfen – er enghraifft effeithiau arbennig.

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.